WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel/Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Mr Llyr Gruffydd AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Drwy'r e-bost: SeneddFinance@assembly.wales

**Cyfeirnod:** IG19001/AC073/caf
**Dyddiad cyhoeddi:** 10 Ionawr 2019

Annwyl Llyr

## Adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar Swyddfa Archwilio Cymru

Yn dilyn ein llythyr dyddiedig 27 Tachwedd, rydym yn ysgrifennu i roi'r ymatebion yr ydym yn eu cynnig i argymhellion y Pwyllgor ar ein hadroddiadau statudol.

Rydym yn ymdrin â phob un o'ch argymhellion yn ei dro, isod:

**R1 Mae'r Pwyllgor yn fodlon ar yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon 2017-18.**

Rydym yn croesawu safbwynt y Pwyllgor.

**R2 Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Swyddfa Archwilio Cymru yn darparu diweddariad ar ganlyniad yr ymarferiad dysgu yn dilyn prosiect, a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Ad-dalu ac Adnoddau Dynol mewn perthynas â thaliadau ymadael yn gynnar.**

Adroddwyd am yr ymarferiad dysgu yn dilyn prosiect wrth ein Pwyllgor Ad-dalu ac Adnoddau Dynol ym mis Gorffennaf 2018, gan gynnwys pwyntiau dysgu oddi wrth y Pwyllgor hwnnw ei hun. Cytunodd y Pwyllgor Ad-dalu ac Adnoddau Dynol ar argymhellion yn canolbwyntio ar wella'r **broses** ar gyfer cynlluniau yn y dyfodol, heb godi dim materion yn ymwneud â gwerth am arian y penderfyniadau a wnaed. Roedd yr argymhellion yn cynnwys:

- Caniatáu digon o amser i gynlluniau ymadael yn gynnar ffurfio rhan o'r cylch busnes sefydledig, fel y gellir gwneud penderfyniadau o fewn y cylch hwnnw yn hytrach nag yn ychwanegol ato;
- Sicrhau bod y meini prawf ar gyfer ymadael yn gynnar wedi eu datgan ym mholisi Adnoddau Dynol;
- Cryfhau ffurflen yr achos busnes a chynnwys cyllid ac adnoddau dynol wrth ddatblygu'r achosion busnes; a

- Gwella cyfathrebu o gwmpas telerau'r cynllun ac ar gyfer ymgeiswyr aflwyddiannus.

Mae'r holl argymhellion hyn yn cael eu gweithredu yn y cynllun yr ydym yn ei redeg ar hyn o bryd, a byddwn yn ymgymryd ag ymarferiad yn dilyn prosiect pellach ar ôl cwblhau'r cynllun hwnnw.

**R3 Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y gwaith a gyflawnwyd hyd yma i fynd i'r afael â'r bylchau cyflog rhyw ac ethnigrwydd ac yn argymell bod diweddariadau pellach ynghylch cynnydd yn cael eu darparu ar gyfer y Pwyllgor**

Ym mis Medi 2018, daeth trafodaeth strategol y Bwrdd ar gydraddoldeb ac amrywiaeth i ben gyda barn gref iawn fod yna fuddion moesol a chyfreithiol ac o ran busnes o gael gweithlu mwy amrywiol yn Swyddfa Archwilio Cymru. Mae gennym nifer o gamau gweithredu mewn golwg, o fewn ein cynllun Cyflawni Strategaeth Pobl, a chytunasom ar gamau pellach o gwmpas recriwtio wedi ei dargedu a'i ganolbwyntio, fel y gallwn gynyddu ein cynrychiolaeth o blith grwpiau sydd wedi eu tangynrychioli ar hyn o bryd. Byddwn yn cyfeirio'n benodol mewn hysbysebion swyddi at y ffaith ein bod yn gwahodd ac yn croesawu mynegiant o ddiddordeb o blith cymunedau du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ac oddi wrth bobl sy'n dymuno gweithio'n rhan-amser neu rannu swydd. Byddwn yn cynnig cyfweliadau wedi eu gwarantu i ymgeiswyr sy'n bodloni lleiafswm o feini prawf ac sy'n dod o grwpiau sydd wedi eu tangynrychioli.

Byddwn yn rhoi diweddariadau pellach drwy ein hadroddiadau cydraddoldeb blynyddol.

**R4 Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Swyddfa Archwilio Cymru yn ystyried ymhellach ymuno â gwasanaeth Cyflogwr Chwarae Teg.**

Ers hynny rydym wedi cyfarfod gyda Chwarae Teg ac mae achos busnes ar gyfer ymuno wrthi'n cael ei ddrafftio ar hyn o bryd. Ein bwriad yw bod wedi ymuno erbyn diwedd mis Mawrth; rhoddwn ddiweddariad drwy ein Hadroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2018-19.

**R5 Mae'r Pwyllgor yn nodi argymhellion RSM y dylai unrhyw ddiwygiadau i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 hefyd ystyried diffiniad cost yng nghyd-destun dyraniad cost anuniongyrchol. Bydd y Pwyllgor yn ystyried cynigion i ddiwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn y Flwyddyn Newydd ac mae'n argymell bod yr Archwilydd Cyffredinol yn rhoi ystyriaeth bellach i hyn ac yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor.**

Mae argymhelliad RSM yn ymwneud â'r ffordd y mae Swyddfa Archwilio Cymru yn dyrannu gorbenion i waith archwilio sy'n cael ei gontractio allan. Rydym yn ystyried bod ein methodoleg yn rhesymol ac nid ydym wedi canfod unrhyw ddewisiadau eraill cryfach; ac nid yw ein harchwilwyr wedi nodi rhai ychwaith.

Rydym yn awyddus i gydweithio gyda'r Pwyllgor Cyllid i symud ein 'hachos dros newid' yn ei flaen er mwyn symleiddio gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, gan gynnwys newid y rheol 'dim mwy na'r gost lawn' i ofyniad i osod y ffioedd er mwyn mantoli'n fras. Dan y cynnig hwn, byddai'n rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru sicrhau bod cyfanswm y ffioedd a godid am yr holl waith (ac eithrio gwaith drwy gytundeb neu dendr), gan gymryd un flwyddyn gydag un arall, yn gyfwerth yn fras â'r gwariant mewn perthynas â'r gwaith hwnnw.

Nid ydym yn awgrymu diffinio mewn deddfwriaeth sut y dylai ein model costio weithio, ond mae'n fecanwaith sicrwydd priodol i alluogi'n harchwilwyr allanol i adrodd ar ba mor rhesymol yw'r model dyrannu costau yr ydym yn ei ddefnyddio.

Rydym yn barod i gefnogi ystyriaethau'r Pwyllgor ar y mater hwn.

**R6 Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Archwilydd Cyffredinol yn rhoi sicrwydd bod dulliau rheoli mewnol effeithiol wedi eu sefydlu i osgoi sefyllfa lle mae ffioedd yn cael eu gordalu fwy nag unwaith, fel y soniodd RSM, a dylid rhoi diweddariad ar hyn yn yr Adroddiad Blynyddol 2018-19.**

Fe wnaethom gynnal ymarferiad dysgu yn dilyn prosiect i ganfod beth aeth o'i le gyda'n cyflenwr archwilio grantiau yn yr achos hwn a sut i gadw hyn rhag ailddigwydd yn y dyfodol.

Y canlyniad fu newid o ddibynnu ar drefniadau sicrhau ansawdd y cwmni i ddibynnu ar reolaeth fanylach gan Swyddfa Archwilio Cymru, fel bod yr un trefniadau sicrhau ansawdd yn awr yn berthnasol i'r holl waith sy'n cael ei wneud ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Fel rhan o hyn, rydym wedi sefydlu llinellau adrodd mewnol gyda golwg ar waith grantiau. Yn y dyfodol, bydd ein rheolwr grantiau yn adrodd am faterion wrth y rheolwr contractau a'r rheolwr ansawdd ac yn ystyried eu codi i sylw'r Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol.

Byddwn yn darparu datganiad ar hyn yn ein Hadroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon 2018-19.

**R7 Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Swyddfa Archwilio Cymru yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar effaith unrhyw gynnydd yng nghyfraniadau pensiwn cyflogwyr neu bwysau cyflogau a phrisiau cyn gynted ag y byddant yn hysbys.**

Mae ein hamcangyfrif presennol o'r gost ychwanegol heb fod yn y gyllideb, oddeutu £750,000 mewn perthynas â'r cynnydd yng nghyfraniadau pensiwn cyflogwyr er ein bod yn disgwyl am gadarnhad ynghylch union lefelau'r cyfraniadau. Byddwn yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn, unwaith y bydd y sefyllfa wedi dod yn gliriach.

**R8 Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Swyddfa Archwilio Cymru yn rhoi eglurder ynghylch yr angen posibl am gyllid ychwanegol yn 2019-20 os na cheir cytundeb pontio gyda'r Undeb Ewropeaidd.**

Rydym yn ddiolchgar am gefnogaeth y Pwyllgor o gyfraniad o £85,000 ychwanegol yn ein Hamcangyfrif tuag at ein gwaith ynghylch pa mor barod yw Cymru ar gyfer dod allan o'r Undeb Ewropeaidd. Os bydd y Deyrnas Unedig yn mynd i mewn i gyfnod pontio, fel yr eglurwyd yn y Cytundeb Ymadael arfaethedig, yna rydym yn disgwyl na fydd angen Amcangyfrif Atodol.

Fodd bynnag, rydym yn meddwl ei bod yn dra thebygol y byddai 'Brexit heb fargen" ar 29 Mawrth 2019 yn galw am lefel uwch o sylw ac adnoddau archwilio yn ystod 2019-20. Yn y sefyllfa honno, byddem yn ailffocysu ein hadnoddau cysylltiedig â Brexit ac o bosibl yn ail flaenoriaethu gwaith arall.

Nid ydym ar hyn o bryd yn cynllunio ar sail gofyn am Amcangyfrif Atodol ac felly, dim ond pe baem yn gweld ein hadnoddau diwygiedig yn amlwg annigonol a ninnau'n analluog i amsugno costau pellach o'n cyllideb, y byddem yn ystyried codi'r mater gyda'r Pwyllgor Cyllid. Er hynny, mae'r ansicrwydd sy'n gysylltiedig â 'Brexit heb fargen' yn gyfryw fel ein bod yn meddwl ei bod yn ddoeth ac yn briodol hefyd i roi arwydd i'r Pwyllgor, ar y cam cynnar hwn, na ellir rhoi heibio'r posibilrwydd y bydd angen Amcangyfrif Atodol yn ystod 2019-20. Unwaith y byddwn yn gwybod ar ba delerau yn union y bydd y Deyrnas Unedig yn ymadael ar 29 Mawrth 2019, byddwn yn gallu nodi ac asesu'n well y peryglon archwilio fydd yn ganlyniad i hynny a'u goblygiadau.

Byddwn yn parhau i gysylltu â'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Phwyllgorau perthnasol eraill yn y Cynulliad mewn perthynas ag unrhyw effeithiau posibl ar gyfer eu rhaglenni gwaith.

**R9 Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Swyddfa Archwilio Cymru yn darparu manylion pellach ar werth tybiedig incwm a gollir o ganlyniad i beidio ag ymgymryd mwyach ag archwilio grantiau'r Undeb Ewropeaidd.**

Mae ein Cynllun Ariannol Tymor Canol yn rhagweld gostyngiad disgwyliedig o £750,000 mewn perthynas â gwaith archwilio ar Gronfeydd Amaethyddol yr Undeb Ewropeaidd y disgwyliwn iddynt ddod i ben yn 2021-22 yn unol â diwedd y rhaglen grantiau bresennol. Nid ydym yn disgwyl y byddai unrhyw bolisi domestig a allai gymryd lle'r grantiau hyn yn galw am yr un lefel o archwilio. Rydym felly yn cynllunio ar y sail y bydd y ffrwd incwm hon i raddau helaeth, neu'n gyfan gwbl, yn diflannu ac rydym yn cymryd camau priodol i reoli'r newid hwnnw'n esmwyth, er enghraifft, drwy wneud penodiadau tymor penodol ar gyfer y gwaith.

Os ceir 'Brexit heb fargen' ar 29 Mawrth 2019, bydd ein gwaith archwilio yn parhau hyd ddiwedd mis Mehefin 2019, ac ar ôl hynny yn gadael risg o ddiffyg incwm sylweddol o oddeutu £600,000 yn 2019-20. Er mwyn lliniaru'r risg hon yn rhannol, mae gennym gytundeb gyda DEFRA i dalu costau ymrwymedig ychwanegol, er enghraifft, ar gyfer diswyddiadau anochel penodol. Byddwn hefyd yn edrych ar ailalinio adnoddau mewnol ac adolygu ein cynlluniau recriwtio ehangach a chael staff newydd ar gyfer y flwyddyn nesaf. Fodd bynnag, efallai na fydd modd cwrdd â'r diffyg yn llawn yn y flwyddyn gyntaf honno os na cheir bargen.

**R10 Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Swyddfa Archwilio Cymru yn darparu dadansoddiad o'r prosiectau a'r arbedion a gyflawnwyd fel rhan o'r rhaglen "Smarter, Leaner, Better".**

Rydym yn cynnig cynnwys hyn yn ein hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn y blynyddoedd i ddod, er mwyn dangos yn eglur y cysylltiad yn ôl â'r rhagdybiaethau yr ydym wedi eu datgan yn ein Hamcangyfrifon am y flwyddyn.

**R11 Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Swyddfa Archwilio Cymru yn darparu manylion yr arbedion effeithlonrwydd a enillwyd drwy ei fuddsoddiad mewn Dadansoddeg Data yn ein hamcangyfrifon yn y dyfodol a'r adroddiad blynyddol.**

Er ei bod yn rhy fuan yn y rhaglen i allu dweud gyda hyder pa arbedion y gellir eu sicrhau, mae gan y cynllun sylweddoli buddion Dadansoddeg Data gynilion costau ac arbedion fel un o'r manteision y bwriadwn eu cyflawni. Byddwn yn adrodd ar hyn yn ein Hamcangyfrif ar gyfer 2020-21, ac Adroddiadau Blynyddol a Chyfrifon yn y dyfodol.

Hyderwn fod yr uchod yn rhoi'r sicrwydd y mae'n ei geisio i'r Pwyllgor ond cofiwch ddod yn ôl atom os bydd gennych unrhyw gwestiynau sy'n codi o hyn.

Edrychwn ymlaen yn fawr at weithio gyda chi a'r Pwyllgor.





**ISOBEL GARNER**
**Cadeirydd, Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**

**ADRIAN CROMPTON**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

cc: Bethan Davies, Clerc i'r Pwyllgor